| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | **Cydlynydd Creadigol : Rhaglennu** |
| **Lleoliad** | Galeri Caernarfon |
| **Math Swydd** | Parhaol. Rhan Amser (Oriau i'w trafod) |
| **Cyflog** | £27,000 - £29,500 (pro-rata) |
| **Yn atebol i** | Cyfarwyddwr Artistig |
| **Prif Gyfrifoldebau** | Cynllunio, ymchwilio a threfnu rhaglen artistig Galeri i gefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig gyda'r prif gyfrifoldebau yn cynnwys y rhaglen o berfformiadau byw sy'n cynnwys gigs, cynyrchiadau theatr, sioeau comedi ayyb, yn ogystal â dangosiadau sinema.<br><br>Cydlynu manylion y rhaglen o ddydd i ddydd, gan gynnwys cadarnhau dyddiadau, amserlennu gofodau a sicrhau bod holl wybodaeth y digwyddiadau'n gywir ac yn gyfredol.<br><br>Paratoi cytundebau, brîff digwyddiadau, asesiadau risg ac adroddiadau mewnol yn ôl yr angen.<br><br>Gweithio'n agos hefo artistiaid, asiantaethau, cwmnïau teithiol a dosbarthwyr ffilm i drefnu gofynion technegol, marchnata, teithio, llety ac amserlenni a sicrhau fod y wybodaeth cywir yn cyrraedd y timoedd priodol o fewn y Cwmni.<br><br>Sicrhau bod ymwelwyr yn derbyn profiad croesawgar ac yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol ymlaen llaw.<br><br>Cydweithio gyda timoedd ar draws y Cwmni, a phan yn briodol, cefnogi tîm Blaen Tŷ.<br><br>Cefnogi cyflwyno digwyddiadau neu gynrhychioli'r Cwmni mewn digwyddiadau pan fo'r angen. |
| **Sgiliau / Cymwesterau Hanfodol** | Profiad o weithio mewn lleoliad digwyddiadau byw, sinema neu amgylchedd celfyddydol tebyg, gyda dealltwriaeth o lif gwaith rhaglenni cyhoeddus a gweithrediadau ar y safle.<br><br>Sgiliau gweinyddol a threfnu rhagorol, gyda llygaid ar ofal a manyder. |

| | |
|---|---|
| | Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a Saesneg (llafar ac ysgrifenedig), gyda'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol gyda chydweithwyr, artistiaid, asiantau a phartneriaid allanol.<br><br>Y gallu i reoli sawl prosiect ar yr un pryd, blaenoriaethu llwyth gwaith a chadw at dargedau amser mewn amgylchedd prysur.<br><br>Hyder wrth weithio gyda partneriaid gan gynnal perthnasau gwaith cadarnhaol a delio'n effeithiol â gofynion ymarferol a thechnegol.<br><br>Sgiliau TG cadarn ac hyderus, gan gynnwys defnyddio systemau amserlennu, cytundebau, e-bost a Ticketsolve.<br><br>Dealltwriaeth o ofynion technegol digwyddiadau byw a sinema, gan gynnwys anghenion technegol sylfaenol, asesiadau risg ac ystyriaethau iechyd a diogelwch.<br><br>Sgiliau cryf mewn monitro ac adrodd yn ôl, gyda'r gallu i gasglu gwybodaeth, cynnal cofnodion cywir a chyfrannu at adroddiadau mewnol neu ofynion cyllido pan fo angen. |
| **Sgiliau / Cymwysterau Dymunol** | Brwdfrydedd tuag at genhadaeth a gweledigaeth Galeri Caernarfon Cyf, ac awydd i gyfrannu at dwf a datblygiad y sefydliad.<br>Profiad o gydlynu digwyddiadau mewn lleoliad tebyg, neu o brosesau cytundebu a cyllidebu.<br>Profiad o weithio gyda systemau archebu sinema a digwyddiadau byw.<br>Diddordeb cryf mewn celfyddydau perfformio, cerddoriaeth, theatr a ffilm ac agwedd gadarnhaol, hyblyg a datrysiol. |
| **Amodau Gwaith** | Bydd angen gweithio rhai nosweithiau a phenwythnosau yn ôl amserlen y rhaglen. O bryd i'w gilydd bydd angen bod ar y safle yn ystod digwyddiadau neu berfformiadau y tu hwnt i oriau swyddfa arferol. |
| **Proses Ymgeisio** | Ffurflen Gais a C.V wedi'w anfon at swyddi@galericaernarfon.com |
| **Dyddiad cau** | 9yb ar 8fed o Fai, 2026 |
| **Gwybodaeth Gyswllt** | Mari Elen, Cyfarwyddwr Artistig |

| | |
|---|---|
| | mari.elen@galericaernarfon.com |